# Hysbysiad Preifatrwydd Graddio

Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant (PCYDDS) yw'r rheolydd data ac mae'n ymrwymedig i ddiogelu hawliau myfyrwyr a graddedigion yn unol â Deddf Diogelu Data (DPA) 2018 y DU a'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR) newydd. Mae gan PCYDDS Swyddog Diogelu Data y gellir cysylltu ag ef drwy foi@uwtsd.ac.uk

Mae'r datganiad hwn yn egluro sut mae'r Brifysgol yn trin ac yn defnyddio eich gwybodaeth bersonol yn ystod y broses raddio. Mae hyn yn berthnasol i bob myfyriwr sy'n bwriadu graddio neu a allai fod yn gymwys i dderbyn dyfarniad pa un a ydynt yn mynychu seremoni ai peidio. Mae'r Brifysgol wedi ymrwymo i ddiogelu eich gwybodaeth a bod yn dryloyw ynghylch pa wybodaeth mae'n ei chadw. Mae gan y Brifysgol bolisi diogelu data ar waith, sydd i'w gweld yn https://www.uwtsd.ac.uk/about/governance-and-management/corporate-governance/data-protection

## Pa wybodaeth rydym yn ei chasglu amdanoch chi?

Mae PCYDDS yn casglu ac yn cofnodi'r wybodaeth bersonol ganlynol trwy'r broses raddio:

- Manylion cyswllt, a gesglir o'ch cofnod myfyriwr
- Manylion y cwrs a'r dyfarniad a gwblhawyd, a gesglir o'ch cofnod myfyriwr
- Gofynion mynediad ar gyfer graddedigion a gwesteion, a gesglir o'r broses Archebu Lle Graddio ar-lein neu drwy negeseuon e-bost neu sgwrs dros y ffôn  Mae'r wybodaeth hon yn cael ei chofnodi a'i storio yn system cofnodion myfyrwyr PCYDDS a'i rheoli yn unol â'r Hysbysiad Preifatrwydd Myfyrwyr (LINK).
- Eich llun drwy ddolen ffrydio byw a ffotograffau, a gesglir ar ddiwrnod y seremoni.  Mae'n bosibl y caiff eich gwesteion eu dal ar gamera neu ffilm hefyd.

## Sut y caiff eich gwybodaeth ei defnyddio?

Cesglir y wybodaeth hon at y dibenion canlynol:

- **Gweinyddu a chynllunio'r seremoni**
  Mae angen eich gwybodaeth bersonol arnom i wneud y gwaith gweinyddu angenrheidiol yn gysylltiedig â'ch seremoni raddio.
- **Trefnu gofynion mynediad ar gyfer graddedigion a gwesteion**
  Gofynnir i raddedigion ddatgelu unrhyw anableddau neu anghenion meddygol ar eu rhan eu hunain a'u gwesteion, sy'n golygu bod angen gwneud trefniadau mynediad ar gyfer y seremoni.
- **Darparu llyfryn graddio**

Mae'r Brifysgol yn cynnwys enwau pob un o'r graddedigion a'r dyfarniad a enillwyd yn ei llyfryn graddio sydd ar gael ar-lein drwy wefan PCYDDS. Mae'r Brifysgol yn cyhoeddi'r llyfryn hwn i gofio am y diwrnod ac fel dathliad o gyflawniad yr unigolion dan sylw. Ystyrir bod cynnwys enw'r unigolion yn y llyfryn yn cyfoethogi'r profiad graddio. Ni chynhwysir gwybodaeth am ddosbarthiad y dyfarniad a enillwyd ac nid ystyrir y bydd cynnwys enwau'r graddedigion yn arwain at unrhyw niwed neu ofid diangen.

Os nad ydych yn dymuno i fanylion (enw a chwrs) gael eu cynnwys yn y llyfryn cysylltwch â'r tîm graddio heb fod yn hwyrach na phythefnos cyn eich seremoni.

- **Fel rhan o'r ddolen ffrydio byw fydd ar gael ar y rhyngrwyd**
  Caiff seremonïau eu ffrydio'n gydamserol ar y rhyngrwyd i ganiatáu i'r rhai nad ydynt yn gallu bod yn bresennol weld y digwyddiad. Mae'r Brifysgol yn sylweddoli nad yw'n bosibl i bob aelod o'r teulu a ffrindiau fod yno a thrwy ffrydio'r digwyddiad ar we'r Brifysgol mae'n galluogi eraill i weld y seremoni. Hysbysir unigolion y bydd y seremoni ar gael ar-lein mewn gohebiaeth yn ymwneud â'r digwyddiad. Ystyrir bod ffilmio'r seremoni'n cyfoethogi'r profiad i raddedigion, eu teulu a'u ffrindiau, a'r Brifysgol. Os nad ydych eisiau cael eich cynnwys yn y darllediad hwn, cysylltwch â'r tîm graddio, heb fod yn hwyrach na phythefnos cyn eich seremoni i drafod opsiynau posibl.

- **Lluniau o'r digwyddiad**
  Mae PCYDDS yn defnyddio ffotograffydd swyddogol i gymryd lluniau o'r seremonïau graddio. Mae'n bosibl y caiff y lluniau hyn eu defnyddio ar gyfer cyhoeddiadau yn y cyfryngau a hysbysebu. Os nad ydych eisiau i'ch llun gael ei dynnu fel hyn, cysylltwch â'r tîm graddio, cyn gynted â phosibl.

- **Darparu gwasanaeth i gyn-fyfyrwyr**
  Pan fyddwch yn cwblhau eich cwrs yn llwyddiannus, byddwch yn dod yn gyn-fyfyriwr o'r Drindod Dewi Sant yn awtomatig, ac fe gewch wybodaeth am Rwydwaith Cyn-fyfyrwyr y Brifysgol a'r manteision sy'n gysylltiedig â bod yn aelod. Pan fyddwch yn cwblhau eich ffurflen archebu lle graddio, byddwn yn defnyddio'r wybodaeth ar eich ffurflen i ddiweddaru eich manylion cyswllt ar ein system cyn-fyfyrwyr.

## Sail gyfreithiol dros brosesu eich gwybodaeth

Erthygl 6(1)(a) ac Erthygl 9(2)(a), sy'n caniatáu i ni brosesu data personol pan fyddwch yn rhoi eich caniatâd. Os byddwch yn rhoi gwybodaeth i ni am unrhyw anableddau, anghenion meddygol neu ddata iechyd eraill i ofyn am drefniadau arbennig yn ystod y seremoni, rydych yn cytuno y cawn ddefnyddio'r wybodaeth honno i wneud addasiadau rhesymol. Os ydych chi'n un o'r graddedigion, mae'n rhaid i chi sicrhau eich bod wedi cael caniatâd eich gwesteion i roi unrhyw wybodaeth debyg amdanyn nhw.

Erthygl 6(1)(c). Wedi i ni gymryd camau i wneud unrhyw addasiadau rhesymol, byddwn yn dibynnu ar Erthygl 6(1)(c) ac Erthygl 9(2)(g) GDPR y DU ac Atodlen 1(6) y Ddeddf Diogelu Data i gadw gwybodaeth i ddangos sut yr ydym wedi gweithredu ar eich cais, i gydymffurfio â deddfwriaeth cydraddoldeb. Mae hyn yn caniatáu i ni brosesu data personol pan fo hynny'n angenrheidiol i

gydymffurfio â rhwymedigaeth gyfreithiol. Mae'n ofynnol i ni, yn ôl y gyfraith, brosesu peth gwybodaeth at ddibenion cydymffurfio â chyfreithiau cydraddoldeb ac iechyd a diogelwch.

Erthygl 6(1)(f), sy'n caniatáu i ni brosesu data personol os yw hynny er ein budd cyfreithlon ni, neu rywun arall, ac nad yw'n niweidiol i'ch hawliau a'ch rhyddid chi yn ormodol.

Dibynnwn ar yr amod hon i wneud y canlynol, ymhlith pethau eraill:

- Gweinyddu, cofnodi a chyhoeddi'r seremonïau. Mae er ein budd ni a'n myfyrwyr a'n graddedigion i gynnig a chynnal seremonïau graddio i ddathlu llwyddiannau ein graddedigion.

- Darparu rhai gwasanaethau a chyfleusterau ar eich cyfer, fel y gymuned Cyn-fyfyrwyr, a sicrhau bod y Tîm Cyn-fyfyrwyr yn cadw manylion cyswllt cyfredol ar gyfer graddedigion. Mae er eich budd chi, fel un sy'n graddio gyda ni, i gael mynediad at yr holl gyngor, gwasanaethau a rhwydweithiau a ddarperir gan ein Tîm Cyn-fyfyrwyr i'ch helpu i gynllunio ar gyfer eich dyfodol, ac i dderbyn gwasanaethau buddiol eraill yn rhan o'ch profiad Prifysgol.

## Pwy sy'n derbyn eich gwybodaeth?

Caiff gwybodaeth bersonol ei phrosesu gan staff PCYDDS at ddiben y seremoni raddio. Caiff eich enw a'ch cwrs eu harddangos yn y llyfryn graddio a fydd ar gael ar wefan PCYDDS, oni bai eich bod yn rhoi gwybod i'r tîm graddio eich bod yn gwrthwynebu hynny. Bydd unrhyw wybodaeth arall a ddatgelir gan PCYDDS yn cael ei gwneud yn unol â Deddfwriaeth Diogelu Data.

## Am faint y caiff eich gwybodaeth ei chadw?

Bydd PCYDDS yn cadw eich gwybodaeth bersonol (gan gynnwys fideo'r digwyddiad graddio) yn unol â Pholisi Cadw Cofnodion y Brifysgol.

Ar ôl graddio, bydd angen i'r Brifysgol gadw rhai cofnodion er mwyn iddi allu gwirio dyfarniadau, darparu trawsgrifiadau marciau, darparu tystlythyrau academaidd i gynorthwyo gyda'ch gyrfa, a chadw manylion cyswllt cywir ar gyfer yr Arolwg Hynt Graddedigion.

## Diogelwch eich gwybodaeth

O dan ddeddfwriaeth Diogelu Data mae'n rhaid i ni gadw eich gwybodaeth yn ddiogel. Golyga hynny y caiff eich cyfrinachedd ei barchu, ac y cymerir pob cam priodol i atal mynediad a datgeliad heb ganiatâd. Dim ond aelodau o staff sydd angen mynediad at rannau perthnasol o'ch gwybodaeth, neu'r holl wybodaeth, fydd yn cael yr hawl i wneud hynny. Bydd gwybodaeth electronig amdanoch chi wedi'i diogelu gan gyfrinair a chyfyngiadau diogelwch eraill, tra cedwir ffeiliau papur mewn mannau diogel gyda mynediad cyfyngedig. Mae'n bosibl y gwneir rhywfaint o brosesu ar ran y Brifysgol gan sefydliad a gontractiwyd at y diben hwnnw. Bydd sefydliadau sy'n prosesu data

personol ar ran y Brifysgol dan rwymedigaeth i brosesu data personol yn unol â deddfwriaeth Diogelu Data.

## Beth yw eich hawliau chi?

Mae gennych hawl i weld eich gwybodaeth bersonol, i wrthwynebu bod eich gwybodaeth bersonol yn cael ei phrosesu, i gywiro, dileu, cyfyngu a throsglwyddo eich gwybodaeth bersonol. Os ydych wedi rhoi caniatâd i'r Drindod Dewi Sant brosesu unrhyw ran o'ch data, mae gennych hefyd yr hawl i dynnu'r caniatâd hwnnw yn ôl. Dylid gwneud unrhyw geisiadau neu wrthwynebiadau yn ysgrifenedig i Swyddog Diogelu Data'r Brifysgol: Swyddog Diogelu Data, Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant, Technium 1, Kings Road, Abertawe, SA1 8PH. E-bost: foi@uwtsd.ac.uk Ffôn: 01792 481000

## Sut i wneud cwyn

Os ydych yn anhapus â'r ffordd y mae eich gwybodaeth bersonol wedi'i phrosesu, gallwch gysylltu â Swyddog Diogelu Data'r Brifysgol yn y lle cyntaf gan ddefnyddio'r manylion cyswllt uchod. Os ydych yn parhau'n anfodlon, yna mae gennych hawl i wneud cais yn uniongyrchol i'r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad. Gellir cysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth yn: - Information Commissioner's Office, Wycliffe House, Water Lane, Wilmslow, Cheshire, SK9 5AF. Gwefan: www.ico.org.uk

## Eich cyfrifoldebau chi

Mae'n ofynnol i chi ddarllen yr Hysbysiad Preifatrwydd hwn fel eich bod yn deall eich hawliau a sut yr ydym yn defnyddio eich gwybodaeth bersonol.  Mae gennych gyfrifoldeb hefyd i gadw'r manylion a ddefnyddir ar gyfer y trefniadau graddio yn gyfredol yn ystod y broses raddio.